Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# I gors ai peidio i gors? Dyna'r cwestiwn.

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol/Grŵp oedran** | **CA2/3** |
| **Amser i gwblhau'r gweithgaredd** | **15 – 20 munud** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn dangos pa mor bwysig yw rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac mae'n canolbwyntio ar gorsydd a gwlyptiroedd a'r buddion lu sy'n deillio ohonynt. Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd er mwyn gwella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

| | ADCDF – yr amgylchedd naturiol | Daearyddiaeth | ABCh | |
|---|---|---|---|---|
| **CA2** | • Mae pobl yn dibynnu ar yr amgylchedd i gael ynni, bwyd, a deunyddiau ac adnoddau o fathau eraill | • Arsylwi a gofyn cwestiynau am le, amgylchedd neu fater daearyddol<br>• Byw yn fy myd: gofalu am leoedd ac amgylcheddau, a'r pwysigrwydd o fod yn ddinesydd byd-eang | • Gwerthfawrogi byd natur fel ffynhonnell ysbrydoliaeth | **Sylwer – bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i gyflawni agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd hefyd, ynghyd â'r Fframwaith Cymwyseddau Digidol** |
| **CA3** | • Deall sut mae gweithgareddau pobl yn newid amgylcheddau lleol a byd-eang | • Meithrin barn a deall bod gan bobl werthoedd, agweddau a safbwyntiau gwahanol mewn perthynas â materion daearyddol | • Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Deall materion amserol, yn lleol ac yn fyd-eang | |

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i fodloni'r cwricwlwm presennol a bydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a nodir ym mhedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

## Nod

Codi ymwybyddiaeth dysgwyr o bwysigrwydd corsydd a rhannu ffeithiau allweddol â nhw mewn ffordd ddifyr a rhyngweithiol.

Fel arall, gellir chwarae'r gêm hon fel gweithgaredd i asesu faint y mae'r dysgwyr wedi'i ddysgu a'i ddeall am gorsydd.

## Offer ac adnoddau

Cardiau adnoddau - I gors ai peidio i gors?

Taflen datganiadau ac atebion - I gors ai peidio i gors?

Man agored i chwarae

## Sut i chwarae

Esboniwch mai nod y gêm yw dod yn arbenigwr ar gorsydd trwy ateb y cwestiynau'n gywir. Bydd un person yn sefyll gyda'r cerdyn 'gwir' a bydd person arall yn sefyll ar wahân gyda'r cerdyn 'gau'. Os ydych yn brin o bobl, gallwch roi'r cardiau gwir a gau i bwyso ar rywbeth.

Dylai'r sawl sy'n gofyn y cwestiynau ddal y cardiau lluniau ynghyd â chopi o'r daflen 'Datganiadau ac Atebion - I gors ai peidio i gors?'.

Gofynnwch i'ch dysgwyr sefyll yn y canol rhwng y cardiau 'gwir' a 'gau'. Os yw'r dysgwr yn credu bod y datganiad yn wir, dylai fynd i sefyll wrth ymyl y cerdyn 'gwir'; os yw'n credu bod y datganiad yn anwir, dylai fynd i sefyll wrth ymyl y cerdyn 'gau'.

Bydd y rhai sydd wedi dyfalu'n gywir yn aros yn y gêm. Bydd y rhai sydd wedi dyfalu'n anghywir yn gadael y gêm a dylent fynd i sefyll i'r naill ochr.

## Cwestiynau allweddol

**Gofynnwch i'r dysgwyr:**

Pa wasanaethau neu fuddion y mae corsydd yn eu darparu i ni?

Beth allwn ni ei wneud ar lefel bersonol i helpu i warchod corsydd?

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government